**CYNGOR TREF DOLGELLAU**

Cofnodion Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 3 Chwefror 2026, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 6.45 y.h.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Bob Gunton (Maer)
Y Cynghorydd Nia Evans (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Jo Checkley, Ray Peters, Branwen Rhys Dafydd, Dyfrig Siencyn, Peter Jones, Sion Edwards, Ywain Myfyr, Heilyn Williams, Liz Jones
Mr Rhys Williams – Clerc

Hefyd yn Bresennol: Catrin James – Pensaer yn gweithredu ar ran perchnogion Bryn Mair ar gyfer Eitem Agenda C.71.2025-2026.1

---

## C.71.2025-2026 SESIWN GYHOEDDUS

Dim i'w adrodd / drafod.

---

## C.71.2025-2026.1 MATERION COED FFYNNON FAIR – CYFLWYNIAD GAN CATRIN JAMES – PENSAER YN GWEITHREDU AR RAN PERCHNOGION BRYN MAIR

**Cyflwynwyd:** Cyflwyniad gan y pensaer uchod yn amlinellu'r cynigion manwl ar gyfer Cais Cynllunio Cyfeirnod NP5/57/LB406B ac yn benodol y cynigion i uwchraddio'r llwybr mynediad sy'n rhedeg tu ôl i Bryn Mair sy'n ffinio â Choed Ffynnon Fair.

**Penderfynwyd:** Parhau i wrthwynebu'r gwaith arfaethedig i'r llwybr mynediad fel y'i cyflwynwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac awgrymu bod y Pensaer a'r ymgeiswyr yn cyflwyno cynnig amgen.

---

## C.71.2025-2026.2 MATERION COED FFYNNON FAIR – DIFROD I GIATIAU BRYN MAIR O GANLYNIAD I WYNTYDD / STORMAU DIWEDDAR

**Cyflwynwyd:** Gohebiaeth gan berchnogion Bryn Mair yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer costau ailosod / atgyweirio'r difrod uchod.

**Penderfynwyd:** Yn dilyn cysylltu â Chwmni Yswiriant y Cyngor, cynghori'r perchnogion i gyflwyno tystiolaeth o esgeulustod ar ran y Cyngor Tref a arweiniodd at y difrod hwn. Pe bai hyn yn cael ei dderbyn, byddai'r Cyngor yn cyflwyno hawliad o dan Adran Atebolrwydd Cyhoeddus Polisi Yswiriant y Cyngor.

## C.73.2025-2026 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

---

## C.74.2025-2026 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION 6 IONAWR 2026

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion gyda'r ychwanegiad fod y Cynghorydd Liz Jones yn bresennol yn y cyfarfod.

---

## C.75.2025-2026 MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Adfywio Canol Tref Dolgellau / Strwythur aelodaeth Partneriaeth Dolgellau Newydd**

**Cyflwynwyd:** Adborth o'r Cyfarfod Agored ar 2 Ionawr 2026.

Mae angen penodi Cyfarwyddwyr newydd ynghyd â swydd weinyddol. Mae angen manylu pellach ar ddisgrifiad swydd y swydd weinyddol a chytuno pwy fydd yn gyfrifol am ddyletswyddau rheolwr llinell.

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol mewn perthynas ag Elfen Parc y Dref o'r Bartneriaeth.

Esboniodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn fanwl waith, cyfansoddiad a rôl strwythur y Bartneriaeth a chadarnhaodd ei barodrwydd i barhau fel Cyfarwyddwr.

**Cynigiwyd:** Gan fod cyfansoddiad newydd y Bartneriaeth yn gofyn am Gynghorwyr Tref fel Aelodau, enwebwyd yr aelodau canlynol (yn ogystal â'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn):
Jessica John
Jo Checkley
Nia Evans
Liz Jones

---

**Elfen Parc Dolgellau o'r Bartneriaeth bresennol**

Ar gais Grŵp Partneriaeth Parc y Dref i'r Cyngor Tref gymryd cyfrifoldeb am y Parc.

**Penderfynwyd:** I Gyngor Tref Dolgellau gymryd cyfrifoldeb o Ebrill 2026.

**Camau dilynol allweddol:**

- Ffurfio Is-bwyllgor Parc Cyngor Tref Dolgellau: Y Cynghorwyr Bob Gunton, Branwen Rhys Dafydd, Peter Jones.
- Manylion gwarant offer chwarae'r parc – y Bartneriaeth bresennol i'w darparu i'r Cyngor Tref.
- Manylion prydles newydd i'w trefnu – Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i weithredu.
- Polisi Yswiriant y Cyngor Tref – Clerc y Dref i weithredu.

---

**2. Cofeb Barhaol – Trychineb Penmaenpool**

**Cyflwynwyd:** Cyfarfod cynnydd i ddilyn y cyfarfod hwn gyda'r Cynghorwyr Nia Evans a Branwen Rhys Dafydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

---

**3. Trwydded Adloniant Cyhoeddus ar gyfer y Sgwâr**

Dim i'w adrodd ar hyn o bryd. Swyddog Trwyddedu Gwynedd i fynychu cyfarfod Mawrth 2026.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

---

**4. Grant Ardal Ni – Cais am flodau / tybiau a gweithgareddau**

**Cyflwynwyd:** Diweddariad fod y planwyr ac 1 sedd gyhoeddus wedi cyrraedd. Cystadleuaeth enwi'r planwyr defaid ar y gweill.

Mae cynllun plannu cennin Pedr ar y gweill gyda Chanolfan Dolfeurig drwy waith y Maer a gwirfoddolwyr.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

---

**5. Prosiect 'Pumptrack'**

**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fod angen astudiaeth ddichonoldeb i symud y prosiect yn ei flaen. Paratowyd briff a'i gyflwyno i 4 cwmni ymgynghori gan Gyngor Gwynedd.

Gallai cyllid grant fod ar gael yn ystod blwyddyn ariannol 2026–2027, ond heb ei gadarnhau ar hyn o bryd. Nodwyd hen Gwrt Tenis Ysgol Bro Idris fel lleoliad.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

---

**7. Cyfleusterau CCTV yn y Dref**

**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Heilyn Williams ynghylch diffyg eglurder ynghylch beth yn union sydd ei angen gan yr Heddlu – mynediad cyflymach i'r offer presennol neu reolaeth a pherchnogaeth lawn o'r system gyda chyllid ychwanegol ar gyfer uwchraddio?

**Penderfynwyd:** Gofyn i'r Heddlu fynychu cyfarfod Ebrill 2026 y Cyngor i egluro'r sefyllfa.

---

## C.76.2025-2026 ADRODDIADAU / MATERION ARIANNOL

**Cyflwynwyd:** Manylion cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid ar 27 Ionawr 2026 gan gynnwys adroddiad cyllideb gwirioneddol Mis 1–9 2025 ac amcangyfrif Mis 10–12 2026.

Diffyg amcangyfrifedig o £8,473 yn dilyn addasiadau. Argymhelliad i osod praesept o £80,000 ar gyfer 2026–2027 (cynnydd o £3,000 ar ôl sawl blwyddyn heb gynnydd).

Derbyniwyd a chadarnhawyd y sefyllfa ariannol.

**Penderfynwyd:** Gosod praesept o £80,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–2027.

---

## C.77.2025-2026 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

**i) Adroddiad y Maer – Ionawr 2026**

Daeth grant Gwynedd Ni yn realiti wrth i waith ddechrau ar safle Ffordd Arran. Plannwyd pedair coeden ceirios flodeuol a dau fainc parc. Diolch i aelodau clwb TSC a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu cymorth.

Plannu bylbiau ar y gweill ar y safle hwn.

Mae defnyddwyr Canolfan Dolfeurig yn plannu 500 bwlb ger yr ysgolion bach, gyda chynllun i blannu 1000 arall ym maes parcio'r Marian.

Dosbarthwyd 500 bwlb i'r ardd gymunedol a 500 i'r ardaloedd arwyddion mynediad.

Mae'r planwyr defaid yn barod i'w cydosod ar gyfer blodau'r haf.

Yn aros am ddanfon y planwyr dur mawr ar gyfer y sgwâr.

Mynychodd gyfarfod Ymddiriedolwyr y Marian i drafod uwchraddio'r pafiliwn.

Mynychodd noson coroni'r Carnifal ar 24 Ionawr.

---

**ii) Adroddiad y Dirprwy Faer – Ionawr 2026**

• Mae Lle'n y Dre yn parhau gyda sesiwn ychwanegol brynhawn Llun.
• Digwyddiad Cyngor Gwynedd – cefnogaeth gref gan drigolion lleol; cyfle i weld datblygiadau Dolfeurig a Thŷ Meurig.
• Llyn Penmaen – trefniadau i'w trefnu ar ôl cyfarfod Chwefror gyda chefnogaeth Gaynor Davies.
• Mynychodd gyfarfod Ymddiriedolwyr y Marian.

---

## C.78.2025-2026 GOHEBIAETH

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Ieuenctid Gwynedd lleol yn gofyn am gyfarfod.

**Penderfynwyd:** Ei wahodd i gyfarfod Mawrth y Cyngor (6.45 y.h.) ynghyd â Swyddog Trwyddedu Cyngor Gwynedd.

---

## C.79.2025-2026 ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR GWYNEDD

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn:

Ymwelodd â Chanolfan Dolfeurig lle mae gwaith ailadeiladu llawn ar y gweill – gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

Sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd 2026–2027 – gwelliant bach yn y rhagolygon. Cynnydd treth gyngor o tua 5% yn debygol.

Mae sefyllfa Ysgol Friars wedi rhoi baich trwm ar staff y Cyngor.

---

## C.80.2025-2026 MATERION CYNLLUNIO

Cais Rhif: NP5/57/1176H Amrywio Amod 2 (Cynlluniau Cymeradwy) a dileu Amod 3 (Gwahardd cysgodfannau, tai gwydr ac ati) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP5/57/1176 dyddiedig 10/11/2023 a chodi lloches golchi beiciau a cheir, tai gwydr a sied (CYNLLUNIAU DIWYGIEDIG WEDI'U DERBYN) Canolfan Dolfeurig, Dolgellau LL40 1EL Cyfeirnod Grid: 272653 317842

**CEFNOGI'R CAIS**